# Papur Pawb

Pris: 50c

Ebrill 2024 Rhif 498





Cewch wybod mwy am hanes y caban pren a godwyd gan yr elusen Coed Lleol yn y golofn ‘**Er ein lles**’ ar dudalen 9.


tud 4 **Hwyl Ddewi**

tud 5 **Sêl Ddillad**

tud 8 **Celf Cletwr**

tud 12 **Pêl-Droed**


# Codi dros £1,200 at achos da

**Bu Caoimhe Melangell, Pen-y-ro, Bont-goch, yn tyfu ei gwallt yn hir fel y gallai ei dorri a’i roi i Ymddiriedolaeth y Dywysoges Fach (*Little Princess Trust*) er mwyn creu wig ar gyfer rhywun a fyddai ei angen.**

Mae’r ymddiriedolaeth yn darparu wigiau gwallt go iawn, yn rhad ac am ddim, i blant a phobl ifanc sydd wedi colli eu gwallt eu hunain oherwydd triniaeth ganser neu gyflwr fel alopesia. Mae’r elusen hefyd yn un o gyllidwyr mwyaf ymchwil canser plentyndod ym Mhrydain.

Cafodd Caoimhe dorri ei gwallt ddiwedd Mawrth gan Corinna Jones yn y Stiwdio Wallt, yr Ystafell Harddwch, Machynlleth.


Nain Caoimhe, Mair Penri Jones, a fu farw o ganser y fron yn 2019 ac a fu’n gorfod gwisgo wig ei hunan am sbel, a awgrymodd y dylai hi wneud hyn, ac mae hi bellach wedi gwireddu dymuniad ei nain.

Mae Caoimhe yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at yr achos da hwn.





Cyn ac ar ôl torri.




Y ddau *Welsh Whisperer* – “*gwd thing!*”. Tudalen 6

## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
**07507 652092**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Helena O Sullivan, Bont-goch
**07812 994 008**

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan…
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)


## GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn yw Delyth a Bleddyn, gyda Iolo'n dylunio. Diolch iddynt.
Golygyddion rhifyn Mai fydd Megan Mai a Phil Davies (gwynionydd@btinternet.com).
Y dyddiad cau yw 3 Mai a bydd y papur ar werth ar 10 Mai.

# Gohebiaeth

## Rali Nid yw Cymru ar Werth

Annwyl Olygydd,
Bydd Cymdeithas yr Iaith yn cynnal rali a gorymdaith Nid yw Cymru ar Werth ym Machynlleth ar Fedi 14 eleni. Mae hi'n adeg pwysig i'r ymgyrch am Ddeddf Eiddo fydd yn trin tai fel cartrefi yn hytrach nag asedau masnachol ac yn rhoi grym i gymunedau dros dai.

Ymysg y siaradwyr sydd wedi eu cadarnhau mae Dafydd Morgan Lewis a Delyth Jewell, dirprwy arweinydd Plaid Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â ymgyrch@cymdeithas.cymru.

Diolch,
Bethan
Swyddog Ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith
01239 920180 / 07981 343313

### NODYN PWYSIG

Bydd angen dogfen adnabod â llun *(photo ID)* i bleidleisio yn etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac etholiadau San Steffan o hyn allan. Bydd hyn yn berthnasol i'r etholiad ar 2 Mai.

## Trychineb wyth deg mlynedd yn ôl

**Mae gan Barbara Jenkins, Hafod Ifan, gof plentyn o'i modryb Dorothy, chwaer ei mam, Hilda Tomos, Cwmere. Roedd Dorothy Evans ar y pryd yn gwasanaethu gyda'r Awyrlu yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac roedd hi wedi addo prynu doli iddi ond, cyn iddi ei derbyn, lladdwyd Dorothy mewn damwain echrydus ar faes awyr Fairwood ger Abertawe.**

Roedd Dorothy, a oedd yn 25 oed ar y pryd, wedi ymuno â'r Awyrlu Ategol i Ferched (WAAF) yn 1941 ac ar fin cael ei throsglwyddo i Wasanaeth Llynges Frenhinol y Merched (WRNS) lle'r oedd disgwyl i'r aelodau fod yn berchen ar brofiad, tact a chymeriad dilychwin. Ond ar nos Sul 9 Ebrill 1944 roedd Dorothy yn cysgu gyda phymtheg aelod arall o'r WAAF mewn bloc lletya pan, ychydig cyn canol nos, drawodd awyren Brydeinig yr adeilad. Clwyfwyd pob un a oedd yn cysgu yno, ond Dorothy oedd yr unig un i farw o'i hanafiadau.



Dorothy Evans

Mae'n debyg i injan yr awyren Halifax golli pŵer ac, oherwydd hynny, fe benderfynodd y peilot geisio glanio ar faes awyr Fairwood. Yn anffodus hedfanodd yr awyren yn rhy isel a tharo'r adeilad. Nid anafwyd yr un o'r o'r wyth a oedd yn teithio ar yr awyren.

Dychwelwyd corff Dorothy i'w theulu ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys Elerch a gosodwyd yno garreg fedd swyddogol. Mae ei henw hefyd ar gofeb rhyfel Neuadd Goffa Tal-y-bont.

Ac er bod wyth deg mlynedd yn union ers y digwyddiad truenus hwn, mae Barbara'n parhau i gofio am ei modryb – merch hardd a chymwynasgar a gollodd ei bywyd mewn modd mor annhymig.

*GJ*

# DYDDIADUR

**EBRILL**

14 **Bethel** 10 Trefniant Lleol, Gareth William Jones
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
15 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 'Hanes Cranogwen' (Jane Aaron)
17 **Bore Coffi** 10.30–12 Neuadd Llanfach
21 **Bethel** 10 Uno â Seion, Huw Roderick
**Rehoboth** 11.15 Bugail
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
22 **'Dinas a Chefn Gwlad'** 6–7 Cletwr (Sgwrs gan yr Artist Digidol Cacen Ffenest)
25 **'In Search of King Solomon's Mines'** 6 Neuadd Llanfach (Sgwrs a lluniau gan David Longworth)
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Gweddi Hwyrol
26 **Sesiwn Nos Wener** 8 Y Llew Gwyn (Lowri Evans)
28 **Bethel** 10 a 5.30 Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion
**Rehoboth** 2 Wyn Morris
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
30 **Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn** 7.30 Neuadd Llanfach

**MAI**

4 **Sêl Planhigion**, Cronfa Cae Bach, 10.00–2.00 Neuadd Goffa Tal-y-bont
6 **Taith Ceffylau Sioe'r Cardis**, Cylchdaith yng Nghwmrheidol-cysylltwch â Nerys Daniel ar 07813 565 008
5 **Bethel** 10 Uno â Seion
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
12 **Bethel** 10 Raymond Davies (C)
**Rehoboth** 2 Bugail
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
19 **Gŵyl y Peillwyr** 10–4 Cletwr
24 **Noson Bingo**, Cronfa Cae Bach, 7.30 Neuadd Goffa Tal-y-bont

**BOB WYTHNOS**

**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

Cofiwch anfon manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o'r papur.

**CYMANFA GANU UNEDIG GOGLEDD CEREDIGION 2024**

BETHEL, TAL-Y-BONT
28 EBRILL
10.00 a 5.30 o'r gloch
**Arweinydd y bore:**
Helen Medi Williams
**Arweinydd yr hwyr:**
Delyth Hopkin Evans

# Pobl a Phethe



John Hughes (1926-2024) a'r dröell yn y Felin.

## Colli cymeriad a fu'n rhan bwysig o hanes yr ardal

Bu farw John Hughes, gynt o Felin Leri, Tal-y-bont, yn 98 oed ddiwedd Mawrth. Ef oedd un o'r gwehyddion olaf i weithio â llaw yng Nghymru. Mae modd ei wylio wrth ei waith ar raglen deledu drawiadol a ddarlledwyd yn 1973 sydd i'w chael ar wefan y *British Film Institute*: https://player.bfi.org/free/film/watch-lerry-tweed-mills-1973-online.
Cydymdeimlwn â'i deulu, a bydd teyrnged lawn iddo yn rhifyn Mai.

---

**Cydymdeimlo**
Daeth y newydd trist hefyd am farwolaeth Hywel Williams, Cynnull-mawr, Tal-y-bont, wedi gwaeledd. Cydymdeimlwn â'i weddw, Eluned, a'i ddwy ferch Marianne a Mererid a'u teuluoedd. Cyhoeddir teyrnged iddo yn rhifyn mis Mai.

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Kathy Murphy (Hughes gynt), gweddw y diweddar Simon Hughes, Melin Leri, Tal-y-bont.

Drwg gennym oedd clywed am farwolaeth y Parchedig Llinos Ann Edwards, Maenclochog, mam Delyth Ifan, Llysalaw, Tal-y-bont. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu.

Cydymdeimlir hefyd â'r Cynghorydd Catrin M S Davies ar golli ei brawd yng nghyfraith, ac â Myra Price, Cartrefle, Tal-y-bont, ar golli ei chyfnither, Myfanwy Ann o Flaenau Ffestiniog. Cydymdeimlir hefyd â Betty Jenkins, Pengwern, Tal-y-bont, a gollodd ei brawd yn ddiweddar.

**Gwynfor Davies**
Fel yr oedd y papur yn mynd i'r wasg daeth y newydd trist am farwolaeth Gwynfor Davies, Erw Lon, Tal-y-bont, a oedd yn fwy adnabyddus fel Gwyn y Garej. Cydymdeimlwn â Jen ei wraig, Nia a Ceri ei ferched, a'i wyres Megan.

**Swyddi newydd**
Llongyfarchiadau i Tomos Jenkins, Ynysgreigiog, Ffwrnais, sydd wedi cael ei swydd gyntaf yn dysgu yn Sblot, Caerdydd.

**Penblwydd hapus**
Penblwydd hapus i Ifor Llysynyr sydd yn dathlu 65 oed. Mwynha dy barti!

**Gŵyl R.S. Thomas**
Mae Gŵyl R.S Thomas yn cael ei threfnu ar gyfer penwythnos 20–22 Medi 2024 gydag Esgob newydd Tyddewi, y Parchedig Dorrien Davies, yn cymryd y Gwasanaeth bore Sadwrn ar 21ain Medi. Mae taith gerdded wedi ei threfnu ar gyfer y prynhawn dydd Gwener a gweithdy barddoniaeth ar y prynhawn Sul, ynghyd â rhestr o siaradwyr gwybodus i roi sgyrsiau yn yr Eglwys. Bydd llyfrynnau ar gael yn fuan gyda manylion llawn.

**Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth**
Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod yn festri Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 12 Mawrth. Yn absenoldeb y siaradwr gwadd oherwydd salwch, daeth saith o'r aelodau â rhywbeth oedd yn annwyl ganddynt i'r cyfarfod gan ddweud ychydig eiriau amdano ac egluro pam roeddent mor hoff ohono. Ymhlith yr eitemau a ddangoswyd oedd modrwy a gafwyd yn anrheg gan hen wraig; tair dol fach hynafol, a hefyd lestr bychan wedi ei wneud o goeden bog oak; cerdyn marwolaeth milwr a laddwyd ym mrwydr Mametz Wood yn 1916; dyddiadur 1905, a hefyd pwysau a ddefnyddid ar glorian mewn siop; cerdyn Nadolig a bostiwyd yn Llundain yn 1936 gyda stamp y Brenin Edward VII ar yr amlen; medal a enillwyd mewn gêm bêl-droed yn 1933, darn o frodwaith, a llun Cwmni Drama Bethesda 1921; lliain bwrdd wedi ei grosio gan hen fodryb. Cytunodd pawb i ni gael prynhawn pleserus iawn ac yna mwynhawyd y te a baratowyd gan Mona Rowlands gyda chymorth Non Griffiths.

**Clwb Cant Neuadd Llan-fach**

**Enillwyr mis Mawrth**:
1 Rhif 31 Gwen Lehellico
2 Rhif 95 Dawn James
3 Rhif 48 Peter Nicholls

## Merched y Wawr
## Cangen Tal-y-bont a'r Cylch

Nos Lun, Mawrth 18ed, mentrodd y gangen i ystafell uchaf y Neuadd Goffa er mwyn cael mwy o le gan ein bod wedi gwahodd cangen Penrhyn-coch atom i rannu'r noson. Estynnwyd croeso iddynt hwy ac i'r gwesteion gwadd gan Medi James. Roedd Catrin M S Davies, ein cynghorydd sir, ac Alun Elidir wedi paratoi adloniant ar ein cyfer a chafwyd posau i'w datrys a lluniau i'w lleoli. Nid cystadleuaeth rhwng Tal-y-bont a Phenrhyn-coch mohoni gan fod y ddwy gangen wedi eu rhannu'n dri tîm, a mawr fu'r hwyl wrth weld pwy oedd yn ennill y brif wobr.

Wedi'r ymryson roedd gwledd yn ein disgwyl gan fod cangen Tal-y-bont wedi paratoi bwffe bendigedig. Dyma gyfle i gymdeithasu ymhellach o gwmpas y byrddau. Bu'n noson hwyliog a phawb wedi mwynhau. Diolchodd Enid Gruffudd i ferched Penrhyn-coch am eu cwmnïaeth ac i Alun a Catrin am yr hwyl ac i bawb a fu'n cogino a pharatoi'r byrddau a threfnu'r achlysur.

*EG*


y lolfa
ARGRAFFWYR A CHYHOEDDWYR



**Cyfle yn Y Lolfa**

Gwaith gweinyddol a marchnata:
galwch am sgwrs anffurfiol.
Cysylltwch â Garmon Gruffudd
ar garmon@ylolfa.com
neu ffoniwch 01970 831 902.

Y Lolfa Cyf., Talybont, Ceredigion SY24 5HE
01970 832 304 www.ylolfa.com

# NOSON HWYL DDEWI



Merched Soar

**Neuadd Orlawn**

**Cafwyd noson lwyddiannus eleni eto yn y Neuadd Goffa ar 2 Mawrth wrth i'r gymuned ddod at ei gilydd i ddathlu Hwyl Ddewi.**

**Roedd y Neuadd yn orlawn i fwynhau gwledd o gawl a chacennau a baratowyd gan aelodau Pwyllgor Rheoli'r Neuadd. Yna i ddilyn mwynhawyd awr o adloniant o safon gan Ferched Soar, criw o ardal Tregaron a'r cyffiniau. Hawdd deall sut y cafodd y Merched lwyddiant yn yr Ŵyl Gerdd Dant y llynedd wrth wrando ar eu deongliadau prydferth o rai o'n caneuon gwerin.**

Talwyd y diolchiadau gan gadeirydd y pwyllgor, Dafydd Jenkins, Tanrallt. Cyfeiriodd yn arbennig at staff y gegin am eu hymdrechion, a diolchodd i'r gynulleidfa am eu cefnogaeth. Gyda'r gynulleidfa niferus a'r raffl, llwyddwyd i wneud dros £800 o elw a fydd o gymorth mawr i'r trysorydd wrth geisio cadw prisiau llogi'r Neuadd ar lefel resymol ar adeg pan mae'r costau trydan a nwy yn cynyddu'n arw.

**Cyfarfod Blynyddol**

Yng nghyfarfod Blynyddol y Neuadd Goffa a gynhaliwyd mis Chwefror adroddodd y trysorydd fod cyfanswm gwariant y pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol wedi cyrraedd £21,925 gan gynnwys £3,271 am harddu'r Neuadd Waelod, £4,200 am ffenestri newydd ac £8,641 am y system gyfrifiadurol a gwasanaeth di-wifr. Derbyniwyd grantiau gan Gyngor Ceredigion, Cronfa Eleri a'r Cyngor Cymuned yn ogystal â derbyniadau gwerth £5,722 o ganlyniad i osod y Neuadd.

Ailetholwyd y swyddogion canlynol i wasanaethu am flwyddyn arall:

**Cadeirydd:** Dafydd Jenkins
**Is-gadeirydd:** Mererid Watson
**Ysgrifennydd:** Phil Davies
**Trysorydd:** Ieuan Morgan
**Trysorydd Codi Arian:** David Nutting

Bydd Neuadd Goffa Tal-y-bont yn dathlu'r canmlwyddiant ym mis Hydref a gallwn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn dal i gynnal a chadw adeilad o'r safon uchaf tra'n symud gyda'r oes. Os hoffech chwarae rhan yn y llwyddiant yma mae croeso i chi ymuno â'r pwyllgor, sydd yn cwrdd ar yr ail nos Fercher o bob mis.

*PhD*

# Clwb Hen Beiriannau

**Ar Chwefror 14eg cawsom gwmni Emyr Lewis, cyn-feiliff ar afonydd Cymru. Bu'n archwiliwr tros afonydd Cymru gyfan ond gyda diddordeb arbennig yn nalgylch afon Dyfi, sy'n cynnwys afon Leri.**

Mae dirywiad enbyd wedi bod yn niferoedd eogiaid a sewin (neu frithyll y môr) yn ein hafonydd. Esboniodd Emyr gylch bywyd yr eog sy'n dechrau pan fydd y pysgod yn 'claddu' eu hwyau yng ngwely'r afon. Wedi deor, bydd y pysgod bach yn treulio cyfnod yn yr afon cyn mynd i'r môr. Ar ôl cyfnod yn y môr pryd y maent yn tyfu i'w llawn faint byddant yn dychwelyd i'r afon, sef yr union afon lle cychwynnodd eu taith. Dyma'r cylch yn ailgychwyn eto.

Bydd un pysgodyn yn dodwy miloedd o wyau ar wely'r afon ond canran fach iawn sy'n cwblhau'r siwrnai yn ôl. Pethau hollol naturiol sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r colledion, e.e. adar a dyfrgwn. Mae pysgotwyr yn cymryd rhai, pysgotwyr cyfreithlon ac ambell i botsiwr na theimlodd law Emyr ar ei war! Erbyn hyn, bydd y rhan fwyaf o bysgotwyr gwialen yn dychwelyd y pysgod i'r afon. Roedd y cylch yma yn gweithio drwy'r oesoedd gyda digonedd o bysgod i bawb a phopeth.

Yn anffodus, tros y degawdau diweddaraf mae pethau wedi newid er gwaeth. Mae sawl ffactor yn gyfrifol am y dirwyiad: llygredd, newid hinsawdd a photsio ar raddfa fawr. Ond heb os, y pennaf peth yw'r gorbysgota sy'n digwydd ar y môr gyda llongau yn defnyddio rhwydi sy'n ymestyn am filltiroedd. Mae'n anodd ffeindio ateb i'r broblem ond mae'n hawdd credu na welwn yr un eog yn ein hafonydd. Dyna beth fydd diwrnod trist iawn.

Rhannodd Emyr rai o'i atgofion personol gyda ni. Mae ganddo atgofion hoffus iawn am y diweddar Gwyndaf Evans o Dal-y-bont. Bu'r ddau yn pysgota yn nhîm Cymru. Wn i ddim oedd y ddau ar yr un ochr ar lan yr afon! Cawsom ambell stori ddifyr am y diweddar Harold Lewis pan oedd yn pysgota gyda chwch rhwyfo a rhwyd ar afon Dyfi. Os oedd Emyr yn cadw llygad ar Harold mae'n siŵr fod dwy lygad Harold arno yntau! Diolch i Emyr am ein diddanu.

Ar Fawrth 13eg daeth Ioan Lord atom i rannu peth o'i wybodaeth â ni. Dyma'r ail dro i ni gael ei gwmni ac mae ei wybodaeth a'i frwdfrydedd am weithfeydd mwyn yr ardal yn dal i'n rhyfeddu.

Canolbwyntiodd ar weithfeydd Esgair Hir ac Esgair Fraith oedd wedi eu lleoli tua chwe milltir i'r dwyrain o Dal-y-bont. Rhoddwyd y ffugenw 'Welsh Potosi' ar y gweithfeydd hyn tua diwedd yr 17eg ganrif. Cymerwyd yr enw 'Potosi' ar ôl gwaith arian llewyrchus yng ngwlad Periw, De America. Dyma un dull gan y perchnogion i ddenu sylw ac arian gan fuddsoddwyr, ond colli'r cyfan oedd hanes llawer ohonynt.

*The Welsh Potosi* yw teitl y llyfr diweddaraf gan Ioan. Mae ar gael yn siop Rheilffordd Pontarfynach yn Aberystwyth. Diolch eto i Ioan.

*John Evans*

## Ailwampio'r Cae Chwarae

Mae Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr wedi ffurfio is-bwyllgor bach ond brwdfrydig iawn, yn cynnwys menywod o'r gymuned, sydd yn arwain ar y gwaith o ailwampio'r Cae Bach yn Nhal-y-bont. Bydd y prosiect yn darparu arwyneb newydd o dan draed yn ogystal ag offer newydd a hygyrch i blant hyd at 12 oed. Mae'n brosiect a fydd yn costio degau o filoedd o bunnoedd ond mae eisoes wedi dal dychymyg a chefnogaeth hael y gymuned.

## Trafod dyfodol toiledau cyhoeddus Tal-y-bont

**Mae swyddogion Cyngor Sir Ceredigion wedi gofyn am gyfarfod â chynghorwyr Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr i drafod dyfodol toiledau cyhoeddus Tal-y-bont. Mae pawb yn gwybod fod y Cyngor Sir wedi cytuno ar raglen o doriadau ariannol oherwydd gostyngiad yn y grant canolog gan y Llywodraeth yng Nghaerdydd yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25, ac mae sôn y bydd toriadau pellach ym mlwyddyn ariannol 2025-26.**

Er nad yw'r cyfarfod wedi ei gynnal eto, yr hyn y mae'r cynghorwyr cymuned yn ei dybio yw fod y Cyngor Sir yn mynd i ofyn i'r Cyngor Cymuned gymryd y cyfrifoldeb am gadw'r toiledau yn agored, neu fel arall mae posibilrwydd y bydd yn rhaid iddynt gau.



Gan mai'r cyfleusterau hyn yw'r unig doiledau cyhoeddus sydd rhwng tref Machynlleth ac Aberystwyth, maent yn adnodd pwysig i deithwyr ar yr A487 yn ogystal ag i drigolion lleol ac ymwelwyr.

Pan gyhoeddwyd yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned ddiwedd Mawrth fod y Cyngor Sir eisiau trafod dyfodol y toliedau, dywedodd sawl cynghorydd bod angen ystyried beth yn union fyddai'r gost o gadw'r toiledau a beth fyddai effaith hynny ar braesept Cyngor Ceulanamaesmawr. Y praesept yw maint y dreth a godir ar bob cartref o fewn ffiniau'r cyngor cymuned sy'n cael ei chasglu drwy dreth y Cyngor Sir. Gan fod costau cynnal toiledau'n debygol o olygu talu biliau am lanhau, yswirio a chynnal a chadw'r adeilad, yn ogystal â thalu am drydan a dŵr, bydd yn rhaid i'r cynghorwyr cymuned bwyso a mesur yn ofalus beth fydd goblygiadau unrhyw benderfyniad a wneir yn sgil y cyfarfod â swyddogion y Cyngor Sir.

**CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES**

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau am gymorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 30 o Ebrill, 2024.

**Ysgrifennydd**: Delyth Davies
Bryn Siriol, Lluest
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3AU
01970 629984
**e-bost: delythdavies6@gmail.com**

# Sêl Ddillad yn llwyddiant ysgubol



**Ar fore Sadwrn 23 Mawrth, roedd Neuadd Goffa Tal-y-bont dan ei sang gyda phobl yn chwilota am fargen yn nigwyddiad diweddaraf prosiect codi arian Cronfa'r Cae Bach.**

Agorodd drysau y Sêl Ddillad, Paned a Chacen am 11 o'r gloch gyda rhywbeth at ddant pawb ymhlith y cannoedd o eitemau ar gyfer menywod, dynion a phlant. Roedd y til yn canu'n fuan wrth i ddillad, esgidiau, bagiau, sgarffiau, hetiau a gemwaith hedfan oddi ar y rheiliau. Ac ar ôl siopa, pa well ffordd o adfywio na gyda phaned a darn o gacen gartref flasus? Braf oedd gweld cymaint o bobl yn sgwrsio dros baned a chlywed rhai yn dweud eu bod yn mwynhau eu hunain yn fawr iawn.



Nia Richards, un o drefnwyr y sêl

Rhan bwysig o'r cais am arian Loteri fydd tystiolaeth o ymgynghori gyda defnyddwyr y parc chwarae newydd, felly roedd cornel yn arbennig i blant gyda phob math o weithgareddau iddyn nhw allu nodi pa fath o offer yr hoffent ei weld yn y Cae Bach ar ei newydd wedd.



Paul Watson yn bachu bargen yn y sêl

Ar ôl diwrnod prysur iawn, roedd yr is-bwyllgor yn awyddus iawn i gyfri'r elw ac wrth eu bodd pan ddaeth y cyfanswm i ychydig dros £1,000. Ers hynny, mae'r ffigwr wedi parhau i gynyddu wrth i'r dillad oedd yn weddill gael eu gwerthu ar y We. Hoffai'r is-bwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd y digwyddiad mewn unrhyw ffordd. P'un a wnaethoch roi neu brynu dillad, gwneud neu fwyta cacen, wedi rhoi o'ch amser neu wedi gwneud cyfraniad ariannol, rydym yn ddiolchgar iawn i chi i gyd.

Cadwch lygad am y digwyddiad nesaf ar ein calendr, sef Arwerthiant Planhigion y tu allan i'r Neuadd Goffa yn y wythnosau nesaf. Os ydych wrthi ar hyn o bryd yn hau hadau llysiau neu flodau ar gyfer eich gardd, efallai y gallech blannu ychydig mwy i gyfrannu at y stondin. Llawer o ddiolch.

*Nia Richards ar ran is-bwyllgor y Cae Bach*

**Diogelwch ar y Fferm**
Fel ysgol wledig, mae'n bwysig iawn i ni gefnogi'r gymdeithas amaethyddol sydd o'n cwmpas. Felly roedd gallu dangos ein cefnogaeth a chael ymweliad gan y Welsh Whisperer yn gyfunid perffaith. Roedd cryn dipyn o gynnwrf wrth i ni edrych ymlaen at yr ymweliad gydag ambell un wedi gwisgo fel ei arwr! Ond roedd ochr ddifrifol i'r ymweliad hefyd, sef hyrwyddo'r llyfr *Diolch Byth am Bob* i bwysleisio diogelwch ar y fferm. Diolch o galon am ddod atom ac am fod mor hyfryd gyda'r plant.

**Diwrnod Trwynau Coch**
Cafwyd diwrnod prysur iawn eleni gyda syniadau gwahanol i gyd-fynd gyda'r digwyddiad. I ddechrau penderfynwyd cynnal sesiynau dawnsio i bob dosbarth er mwy deffro'r corff a'r ymennydd ac ar ddiwedd y dydd cynhaliwyd Sioe Dweud Jôcs lle cafodd pob un gyfle i rannu ei jôcs gyda gweddill yr ysgol. Diolch yn fawr i aelodau'r Cyngor Ysgol am drefnu'r gweithgareddau amrywiol ac am yr ymdrechion i godi arian at yr elusen.

**Gŵyl Agor Drysau**
Roedd hi'n braf gallu cefnogi Cwmni Theatr Arad Goch unwaith eto wrth i ni fynychu perfformiadau fel rhan o Ŵyl Agor Drysau eleni. Mae'r ŵyl yn darparu profiadau theatr gwahanol i blant a phobl ifanc yr ardal, ac roedd y plant wrth eu boddau'n cael gweld y sioe *Remarkable Rhythms* ar lwyfan y Neuadd Fawr yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Roedd hi mor braf hefyd gweld un o'n cyn-ddisgyblion, sef Elan Elidyr, yn rhan o'r ddawns wych i'n croesawu i'r ŵyl.

## Ysgol Iach

**Sustrans**
Yn ystod pythefnos olaf y tymor buom yn annog y plant i feicio, cerdded a sgwtera i'r ysgol fel rhan o gynllun Strolio a Rolio 2024. Mae'n her flynyddol lle mae ysgolion yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd teithio heb ddibynnu ar geir. Mae hyn yn ffordd wych i gael mwy o'n disgyblion i deithio'n iach i'r ysgol ac mae'n ffordd syml o hybu ein hiechyd corfforol a'n hiechyd meddwl. Fel gwobr, mae'r plant yn cael cyfle i feicio o gwmpas yr iard fel ffordd i ddiolch iddynt am eu hymdrechion.

**Gŵyl Aml-sgiliau**
Rydym yn ffodus iawn o gael ein gwahodd i wyliau aml-sgiliau'n aml dros y flwyddyn. Y tro yma Blwyddyn 3 a 4 gafodd fynd ar gae aml-bwrpas Prifysgol Aberystwyth i ymarfer gwahanol fedrau mewn amrywiol gampau. Roedd pawb wedi cael amser da ac wedi cael cyfle i gyfarfod eto gyda'n ffrindiau yn Ysgol Craig yr Wylfa fel rhan o gynllun Pont yr Wylfa.

**Dawnsio**
Yn ystod y tymor yma, mae'r disgyblion wedi cael llawer o hwyl gyda Samantha Ackerman sydd wedi bod gyda ni yn cynnal sesiynau dawnsio Zwmba. Yn ogystal â dawnsio, mae Sam wedi bod yn dysgu'r plant am darddiad y gwanhaol fathau o ddawnsio ac yn dysgu ffeithiau am wledydd ar draws y byd. Hoffwn gydnabod cymorth Cronfa Eleri i ariannu'r sesiynau fel rhan o'n gweithgareddau lles. Diolch yn fawr i chi Sam, mae wedi bod yn hwyl – fe welwn ni chi eto'n fuan.

**Ymweliad â Pharc y Scarlets**
Mae ein cysylltiad gyda Chlwb Rygbi'r Scarlets wedi parhau yn ystod y mis ac roedd hi'n hyfryd gweld tri o'n disgyblion yn chwarae ar y maes yn ystod hanner amser y gêm yn erbyn Benetton. Da iawn chi, Cai, Mostyn a Tomi – daliwch ati. Ac roedd hi'n braf i chi weld y Scarlets yn ennill hefyd!

# Ysgol

## Ysgol Eco

**Coetir Anian**
Hyfryd iawn oedd gallu parhau â'r cysylltiad gyda Coetir Anian yn ystod y mis. Dechreuodd y cysylltiad ddwy flynedd yn ôl pan oedd y plant sydd yn y lluniau ym Mlwyddyn 3 a 4. Erbyn hyn nhw yw'r plant hynaf yn yr ysgol a'u tasg y tro yma oedd plannu eu coed derw a dyfwyd o hedyn yn y tir o gwmpas y gwersyll sydd ger Glaspwll. Fe fyddai'n braf pe bai'r plant yn gallu dychwelyd yno rywbryd yn y dyfodol i weld a yw eu coed yn dal i dyfu. Diolch yn fawr i Clarissa a'r staff am y croeso a'r gweithgareddau i gyd. Gobeithio bod modd trefnu rhywbeth arall tebyg yn fuan.

**Ffair Wyddoniaeth**
Mae plant Ysgol Tal-y-bont yn hoff iawn o ymweld â'r Ffair Wyddoniaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth bob blwyddyn. Mae'n ffordd ymarferol a hwyliog o ddysgu am wahanol agweddau o wyddoniaeth. Roedd hi'n hwyl crwydro o gwmpas y stondinau a chyflawni'r heriau gwahanol. Diolch yn fawr i staff y Brifysgol am drefnu'r digwyddiad ac am fod mor amyneddgar wrth esbonio gwahanol agweddau o wyddoniaeth ar y diwrnod.

**Diwrnod y Llyfr**
Mae dathlu Diwrnod y Llyfr yn creu tipyn o gynnwrf bob amser a doedd eleni ddim eto yn ddim gwahanol. Gwelwyd y cymeriadau arferol i gyd ac roedd hi'n hwyl gweld y gwisgoedd lliwgar. Diolch yn fawr i rieni am eu cymorth gyda'r gwisgoedd ac am sicrhau bod y plant yn rhan o'r brwdfrydedd dros ddarllen.

I helpu gyda'r dathlu, roedd plant dosbarth y Dysgu Sylfaen wedi bod yn rhan o lawnsio llyfr yr oedden nhw wedi ei gyd-greu gydag ysgolion eraill o Geredigion. Efallai y cofiwch i ni sôn am hyn yn yr Hydref, wrth i ni greu stori gadwyn am Anturiaethau Seren a Sbarc ('Bant â Ni Gyda Seren a Sbarc), sef y ddau gymeriad hoffus sy'n hyrwyddo amcan Y Siarter Iaith Genedlaethol. Mae ein rhan ni o'r stori wedi ei lleoli yn Garej Davmor ac yn dangos sut y bu'n rhaid i Ben gael help Seren a Sbarc i achub y dydd. Da iawn chi blant, mae'r llyfr yn ardderchog! Roedd y gwaith yn rhan o'n gwaith i sicrhau medal arian y Siarter Iaith eleni.

## Ysgol Greadigol

**Gwersi Offerynnol**
Ar ôl y gwersi gyda'r pBuzz, mae plant Dosbarth Allt y Crib wedi parhau gyda'r gwersi offerynnol gyda Miss Helen. Mae'n rhyfeddol cymaint y maent wedi gallu ei gyflawni mewn cyfnod mor fyr ac rydym yn mawr obeithio y bydd modd parhau gyda'r gwersi pwysig yma ym mis Medi. Diolch o galon i chi Miss Helen am eich gwaith gyda ni ac am gyflwyno cymaint o wahanol fathau o gerddoriaeth i'r plant.

**Staffio**
Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch yn fawr i Mrs Delyth Jones am ei gwaith gyda Dosbarth Braichgarw dros yr wythnosau diwethaf ac am hybu diddordeb y disgyblion i ddysgu technegau crochet! Rwy'n siŵr y byddwn yn eich gweld nol yn yr ysgol yn fuan - cofiwch alw 'nôl i'n gweld.

**Diolch**
Hoffai'r staff ddiolch o galon i rieni a ffrindiau'r ysgol am ddod yma i dacluso dros y gwyliau. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich cyfraniad pwysig i gynnal a chadw'r safle.

# Tal-y-bont


Diwrnod y Llyfr


Dysgu sut i blannu coed yng Nghoetir Anian


Welsh Whisperer


Gŵyl agor drysau Mynydd Gorddu


Dosbarth Braichgarw yn mwynhau beicio


Dosbarth Mynydd Gorddu yn mwynhau beicio


Gwersi cerddorol gyda Miss Helen


Lawnsio llyfr Seren a Sbarc


Gŵyl agor drysau Braichgarw

## Dwy nofel gan ddau awdur lleol

Cynhaliodd y Lolfa noson i ddathlu cyhoeddi dwy nofel gan ddau awdur lleol ddechrau'r mis. Bu Geraint Evans yn holi Robat Gruffudd am ei nofel ddiweddaraf, *Gobaith Mawr y Ganrif*, ac Iwan Meical Jones am ei nofel gyntaf, *Amser Drwg fel Heddiw*. Cyhoeddwn yma adolygiad Geraint o nofel Iwan Meical, a chyhoeddir adolygiad o nofel Robat Gruffudd yn rhifyn Mai.



O'r chwith i'r dde: Iwan Meical Jones, Geraint Evans a Robat Gruffydd yn noson lansio'r ddwy nofel.

# Celf Cletwr

Y gwanwyn hwn mae Cletwr yn dangos dwy arddangosfa wahanol iawn. Mae 'Merched y Mabinogi' yn arddangosfa o brintiau gwreiddiol cyffrous gan Gini Wade, sy'n byw yn Llanidloes. Mae 'Dinas a Chefn Gwlad' yn arddangosfa o brintiau digidol mawr gan Cacen Ffenest, artist digidol o Aberystwyth.

Mae 'Merched y Mabinogi' yn nodweddu bywydau dwy o arwresau benywaidd y Mabinogi, Rhiannon a Blodeuwedd. Mae Gini yn wneuthurwr printiau blaenllaw yng nghanolbarth Cymru sydd wedi dysgu gwneud printiau mewn gwahanol wledydd ac wedi darlunio llyfrau plant hefyd. Dywed Gini: "Mae fy nelweddau yn adlewyrchu diddordeb mawr yn y pŵer sydd gan fythau hynafol i lunio ein dychymyg modern. Mae trawsnewidiadau a rhyngweithiadau rhwng y dynol, anifail a'r Byd Arall i gyd yn elfennau yn y straeon hudolus o'r Mabinogi, sy'n cael eu hadrodd i wneud synnwyr o ddirgelwch bodolaeth."



Gwaith Gini Wade ('Cosb Blodeuwedd')


Mae'r arddangosfa yn parhau tan Mai 27ain.

Dywed Cacen Ffenest, sy'n gweithio gyda delweddau cydraniad isel a phaent digidol, fod "ei waith fel golygfa trwy ffenestr artistig ar bopeth melys a swynol." Fel y mae'r teitl yn ei awgrymu, mae'r pum darn o waith wedi'u hysbrydoli gan amgylcheddau trefol a naturiol. Mae '*City*' yn gynfas syfrdanol sy'n darlunio bywyd trefol. Fodd bynnag, mae'r artist yn rhoi golwg wahanol i ni o'r byd mewn dau lun arall. Peintiad a ysbrydolwyd gan y rhaeadrau yn Ffwrnais Dyfi yw '*Waterfall*'. Mae'n dangos symudiad y dŵr a ffurfiant patrymau ac adlewyrchiad y coed crog uwchben y rhaeadr. Mae 'Dinas a Chefn Gwlad' gan Cacen Ffenest yn Cletwr hyd Mai 6ed.

Mae croeso i bawb i Ddigwyddiadau Celf yn Cletwr: Bydd Cacen Ffenest yn rhoi sgwrs am ei ddelweddau digidol ddydd Llun Ebrill 22ain 6–7 o'r gloch. Bydd Gini Wade yn siarad yn anffurfiol am ei gwaith ar ddydd Mercher Mai 22ain 6–7 o'r gloch.

# Adolygiad

**Llanrwst adeg yr Ail Ryfel Byd yw lleoliad nofel Iwan Meical Jones o Dole, *Amser Drwg fel Heddiw*. Mae gan unrhyw awdur sy'n sgwennu am gyfnod hanesyddol ddwy broblem. Yn gyntaf rhaid ymchwilio'n ofalus i greu darlun clir o'r cyfnod. O'r cychwyn gwelir fod yr agwedd hanesyddol yn gredadwy yn bennaf trwy gyflwyno ffeithiau a manylion sy bellach yn angof niwlog. Beth am y rheolau dogni bwyd, cyfarwyddiadau'r blacowt, y cyfyngiadau ar deithio a'r gosb gyfreithiol am dorri'r rheolau? Er iddo wneud ei waith cartref yn drylwyr mae'r awdur yn taro'r balans cywir gan osgoi'r demtasiwn i orddangos ei wybodaeth, temtasiwn a allai arwain at lethu ac arafu rhediad y stori.**




Yr ail broblem yw gosod y cymeriadau yn y cyfnod, a'r tro hwn nid ymchwil sy ar waith ond dychymyg. Sut oedd trigolion Llanrwst a'r fro yn ymateb i heriau'r rhyfel? Efallai nad oedd yno fomio nac ymosodiadau uniongyrchol ond roedd bywyd wedi newid a'r trigolion yn eu tro yn gorfod addasu eu harferion a phatrwm byw yn sgil y newidiadau. Ifaciwis yn cyrraedd, consgripsiwn, pentrefwyr nad oedd wedi teithio ymhellach na Llandudno yn mynd i ben draw'r byd, rhai yn dychwelyd, rhai yn marw ar faes y gad, mae'r oll yno ac wedi'i weu at i gilydd yn grefftus. Fel ymhob tref mae 'na arweinwyr – meddyg, plismon, gweinidog ac athrawes – a'u hymatebion nhw i gyfnod y rhyfel sy'n gyrru'r plot. Pwysir y tensiynau dydd i ddydd yn erbyn egwyddorion a dyheadau gwrthwynebwyr cydwybodol, yr ychydig rai a wrthododd enlistio gan ddioddef sen a gwawd am eu safiad. Mae moeseg yr oes yn ganolog i'r stori, moeseg oedd i brysur ddiflannu. Wedi'r rhyfel, nid oedd modd dychwelyd at esmwythdra'r gorffennol, ni fyddai Llanrwst na sawl Llan arall fyth yr un fath.

Y prif gymeriad yw Dr Lewis Huws meddyg y dref. Wrth ddarllen amdano down i sylweddoli am ofynion cynnal practis cyn sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. Cleifion yn talu i weld y doctor, talu am foddion a thabledi ac yn aml y doctor ei hun yn cymysgu'r ffisig – y ffisig pinc bondigrybwyll a roddai o bosib wellhad corfforol ac yn bwysicach, esmwythder meddyliol. Gwraig o'r enw Apphia Davies yw howscipar Lewis, dynes a'i bryd ar drefnu bywyd ei bòs. Ac mae gwir angen trefn arno. Mae Lewis Huws yn berson simsan, unigolyn na all wneud penderfyniad dros ei grogi. Weithiau mae'r ffaeledd yn ddibwys – pa fath o ŵy i frecwast – ac weithiau yn ddifrifol megis canlyn a dewis cymar. Yn eironig ei wendid ef sy'n rhoi cryfder i'r nofel ac mae agwedd ddiddrwg ddidda y meddyg yn rhoi sawl plwc annisgwyl i'r naratif.

Yn ei hanfod nofel am bobl a'u troeon trwstan yw *Amser Drwg fel Heddiw.* Fel mae'r awdur ei hun yn cydnabod *gyda'i gilydd neu fel unigolion mynnai pobl wneud pethau ffôl a dychrynllyd dro ar ôl tro.* Gwir y gair.

Cyfoethogir y dweud am fod Iwan Meical yn portreadu bro ei febyd, nodwedd sy'n rhoi naws agos-atoch-chi i'r stori. Mae'r nofel ar werth gan y Lolfa am £9.99.

# Er Ein Lles

**Allan yn yr haul, dilyn taith afon, cerdded ar y traeth, crwydro mewn coedwig, cyrraedd copa'r bryn neu fynydd, hynny yw bod allan yn yr awyr agored yw'r ffordd orau meddan nhw o goncro'r felan, iselder ysbryd, digalondid, problemau meddwl. Y ffaith eich bod allan o'ch cynefin, yn gwneud rhywbeth gwahanol a hynny yn bennaf yn yr awyr iach, yw'r ateb i godi calon yn ôl y gred gyffredinol.**

Ac i geisio gwella'i hunan yr hyn a wnaeth un gŵr adnabyddus o bentref Tal-y-bont oedd prynu coedwig bedair cyfer a mynd ati i roi rhyw fath o drefn ar fangre oedd heb gael sylw ers oesoedd a hynny gyda'r bwriad o ddod â rhyw fath o drefn ar ei feddwl yr un pryd.

Wrth i chi deithio i gyfeiriad Machynlleth ar y ffordd fawr ar y llaw chwith ar ôl mynd heibio Erglodd fe welwch goed; wrth i chi deithio o Bentre-bach tua Thre Taliesin ar y lôn waelod, fe welwch yr un goedwig, ond ar y llaw dde. Dyma'r goedwig ac o'r lôn isaf gwelir yr adeilad cadarn o bren a'r fynedfa drawiadol sydd yn y llun ar dudalen flaen y papur. Dyma'r goedwig a brynwyd gan Dafydd Hughes ymhell cyn teithio'r moroedd mawr yn ei gwch Bendigedig ac yma yr aeth ati i goncro'i iselder ysbryd oedd yn ei flino.

Ai yn y fan hon, wrth wella, y penderfynodd chwilio am long, prynu un yn Synod Inn, ei hailadeiladu a'i lansio hi yn Aberaeron i hwylio o gwmpas y byd mewn cystadleuaeth? Tybed? Ond yn y goedwig hon dros gyfnod hir gwelwyd Dafydd wrthi'n ddyfal yn creu yr hyn a ymdebygai i waith y *Boy Scouts*! Adeiladodd rhyw fath o gysgod allan o frigau rhag y gwynt a'r glaw gyda mwswgl ar y to a chortyn bêls glas yn dal popeth at ei gilydd. Creodd lwybrau yn arwain i mewn i'r coed, i fyny tua'r ffordd fawr uwchben ac, yma ac acw gosod meinciau a byrddau i eistedd i gael paned a bwyd wedi llafurio, a chodi ffensys yn gysgod rhag y gwynt.

Ond pan oedd Dafydd bant yn hwylio rownd y byd daeth criw o bobl o Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi, chwalu'r cwbl oedd yno a mynd ati i sefydlu adeiladau cadarn gydag arian gan lywodraeth Prydain. Nod yr elusen, Coed Lleol sydd â'i swyddfa ym Mharc Eco Dyfi, Machynlleth, ond sy'n gweithio drwy'r ysbyty lleol, yw bod:

... yn hwb ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn seiliedig ar fyd natur ar gyfer staff a'r gymuned leol oherwydd mae tystiolaeth yn dangos bod natur yn gwella ein hiechyd meddyliol ac yn lleihau'r tebygolrwydd o glefydau cronig.

Mae'r elusen yn weithredol drwy dir mawr Prydain er 1988 ac yng Nhymru er 2010. Daw'r nawdd o ddwsinau o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys cefnogaeth ambell gyngor sir, a rheolir y cyfan gan fwrdd o aelodau cenedlaethol. Gwirfoddolwyr yw'r rhan fwyaf o'r gweithwyr, pob un ag arbenigedd mewn maesydd amrywiol ond â diddordeb ym myd natur a'r potensial i wella'r unigolyn drwy weithgaredd awyr agored. Er ein lles ni mae'r gweithgareddau a gynigir ac mae nifer helaeth ohonyn nhw: plannu a thyfu coed, creu basgedi, cwympo coed, grafftio coed, tyfu coed o hadau, adeiladu gyda choed a mwy o weithgareddau i'w henwi nag sydd o le yn yr erthygl hon. Ble bynnag mae arbenigwr mae'n bosib trefnu cwrs ar gyfer y sawl anghennus a'r llinyn mesur yw bod hyn oll yn digwydd allan yn yr awyr iach.

Nod yr elusen yn y bôn yw codi calon, ac mae llawer mwy nag erioed yn ôl pob tebyg yn dioddef. Yn ôl yr ystadegau diweddaraf, y bobl ifanc yn ein plith yw'r mwyaf niferus sydd ag angen. Ateb Coed Lleol i'r anhwylder yw cynnig nifer o weithgareddau awyr agored a chwnsela perthnasol. Nid Coed Taliesin, yr enw a roddodd Dafydd ar y llecyn, yw'r unig fangre yn y cylch. Ym Mhantperthog mae un eisoes yn weithredol, a hefyd yn Ynyshir a Garth Fawr ger Lledrod gydag eraill hwnt ac yma drwy Gymru. Dafydd piau'r lle ond rhoddwyd yr hawl i'r elusen ddefnyddio'r llecyn. Dyma sydd i'w weld ar daflen Coed Lleol:

... mae tystiolaeth yn dangos bod natur yn gwella ein hiechyd meddyliol, yn cynyddu ein disgwyliadau oes ac yn lleihau'r tebygolrwydd o glefyd cronig.

Wedi darllen hynny, allan â ni i gyd i'r awyr iach i gwrdd â natur, ac os oes angen cymorth arnoch rydych yn gwybod ble i droi ar ôl darllen y llith hon. Mae cymorth ar gael i bawb o bob oedran ac mae hynny o fewn ein plwyf: **coedlleol.org.uk** yw'r cyfeiriad i gysylltu â nhw.

*DRhH*




**Wel, mae hi wedi bod yn bythefnos prysur iawn yn y siop a chaffi ers cychwyn gwyliau'r Pasg, a gobeithio y bydd hyn yn parhau tan yr Hydref! Ond bydd hynny'n dibynnu ar y tywydd dros yr haf. Croesi bysedd y cawn ni haf 'arferol' – ddim yn rhy wlyb a chymylog na ddim yn rhy gynnes chwaith.**

Un darn o newyddion i gychwyn. Ers y Pasg, rydym yn cynnig disgownt o 10% yn y caffi i bobl sy'n talu gyda chyfrif Credyd Gwrthdroi. Oes cyfrif gennych? Os nad oes, dyma gyfle gwych ichi agor un. Mae'r system yn syml. Agorwch gyfrif (gofyn am ffurflen yn y siop), ychwanegu peth arian at y cyfrif drwy gerdyn, neu drosglwyddiad banc, wedyn gwario'r arian sydd yn y cyfrif yn y siop neu gaffi. Pan fydd yr arian gwreiddiol wedi mynd, gallwch chi ychwanegu mwy. Mae'n gyfleus iawn – does dim problem os ydych wedi anghofio'ch pwrs. Cyhoeddir buddion eraill yn y man.

Rydych wedi clywed am y cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol ym mis Ebrill, sef dros 10% ar y cyfan. Dyma beth da! Ond, wrth gwrs, yn sgil hynny, bydd ein costau yn y siop a'r caffi yn codi hefyd (fel sy'n digwydd i bob busnes), ac os bydd y costau yn codi, bydd rhaid i'n prisiau godi hefyd. Rydym yn edrych ar bosibiliadau stocio mwy o 'basics' ar brisiau is yn y siop, i helpu gyda phrisiau uchel, ond dyw hi ddim yn hawdd. Rydym yn chwilio am opsiynau i leihau ein costau eraill, yn arbennig trydan, ond maen nhw'n brin! Os oes gennych unrhyw syniadau, yn arbennig am nwyddau y byddech chi'n hoffi eu gweld yn y siop, rhowch wybod.

Fel rhan o'r broses o adolygu popeth, cynhaliwyd cyfarfod fis diwethaf lle bu cyfle i staff a gwirfoddolwyr rannu syniadau ac adborth gyda'r Bwrdd. Sesiwn hynod o ffrwythlon ydoedd. Mae rhai syniadau eisoes wedi'u gweithredu, ac fe fydd eraill yn bwydo i mewn i strategaeth pum mlynedd nesaf Cletwr, a fydd yn barod ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Tachwedd. Ble rydych CHI am weld Cletwr yn 2029, neu 2034?

Cynhaliwyd sêl llyfrau ail-law lwyddiannus iawn yn y caffi fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr. Cofiwch fod dewis da o lyfrau ail-law (a newydd) ar werth yn y siop drwy'r amser. Croesewir bob amser roddion o lyfrau ail-law mewn cyflwr da (Cymraeg neu Saesneg).

Mae Grŵp Celf Cletwr wedi bod yn brysur, fel arfer, yn trefnu cyfres o arddangosfeydd diddorol ar y waliau, ond, ar ben hynny, maen nhw wedi trefnu dwy sgwrs gan yr artistiaid sy'n arddangos ar hyn o bryd. Ceir y manylion yng ngholofn Celf Cletwr ar dudalen 8. Dewch yn llu.

argraffu
lleol a rhesymol

y olfa
Talybont Ceredigion SY24 5HE
01970 832 304 / **www.ylolfa.com**
Holwch Paul am bris: paul@ylolfa.com

# Prosiect 'Cynnal'

**Mae Grŵp Llifogydd Tal-y-bont a Tir Canol yn cynnig taith dywys ar dir comin Braichgarw ddydd Gwener 19 Ebrill, 6-8yh.**

Bydd yn gyfle i archwilio'r cysylltiad rhwng tir, dŵr, a pherygl llifogydd. Dilynir hyn gan sesiwn galw heibio yn y Llew Gwyn o 8yh, i edrych ar fapiau gyda'n gilydd a chasglu syniadau am beth sy'n bwysig o ran dŵr ac afonydd ledled y dalgylch gan gynnwys llednentydd, enwau lleoedd, archaeoleg, a ffynhonnau.



Linda Denton yn plannu coed i greu sietin newydd

Mae Tir Canol wedi derbyn cyllid gan Sefydliad Esmée Fairbairn i gynyddu ei effaith yn ardal dyffryn Dyfi trwy brosiect newydd 'Cynnal'. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i Grŵp Llifogydd Tal-y-bont er mwyn ceisio datblygu cynllun rheoli llifogydd naturiol.

Mae Grŵp Llifogydd Tal-y-bont eisoes wedi helpu i blannu dros 23,000 o goed mewn gwrychoedd newydd ar ffermydd yn nalgylch yr afonydd Leri a Ceulan. Mae gwrychoedd yn enghraifft o sut y gellir arafu symudiad dŵr dros dir. Mae'r Grŵp hefyd wedi cynnal profion ansawdd dŵr rheolaidd ar yr afon dros y flwyddyn ddiwethaf.

Trwy brosiect 'Cynnal' y gobaith yw cyd-ddylunio i ddod ag ystod eang o bobl, tirfeddianwyr ac arbenigwyr ynghyd i ffurfio cynllun rheoli llifogydd naturiol gyda'r bwriad o gydweithio gyda ffermwyr i ennill buddion ychwanegol i lawr yr afon er mwyn gallu lleihau erydiad pridd, amddiffyn glannau'r afonydd, cynyddu bioamrywiaeth tra'n darparu cysgod a bwyd i anifeiliaid fferm.

Os hoffech chi gymryd rhan, dewch i ymuno â ni ddydd Gwener 19 Ebrill ar y daith gerdded am 6yh (cwrdd ar y Patsyn Glas) neu am 8yh ar gyfer sesiwn galw heibio yn y Llew Gwyn.





Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553





# Colofn Ben Lake



**Masnach Deg. Term sy'n gyfarwydd i nifer fel y trefniant rhwng cynhyrchwyr a mân-werthwyr i gynnal safonau ac arferion masnachu teg. Fodd bynnag, y gwir amdani yw nad yw ffermwyr yma yng Nghymru bob amser yn cael eu trin yn deg wrth fasnachu. Efallai y bydd hyn yn syndod i nifer, ond i'r rheiny sy'n gweithio yn y diwydiant, mae cytundebau ansefydlog yn dod yn fwyfwy cyfarwydd.**

Rydyn ni gyd wedi teimlo effeithiau dirfawr yr argyfwng costau byw, ond drwy gydol y cyfnod hwn, bu disgwyl i ffermwyr barhau i gynhyrchu fel petai dim wedi newid, tra'n gorfod delio â chostau mewnbwn uwch oherwydd chwyddiant. Er hyn, tra bod ein ffermwyr o dan straen aruthrol, mae'r busnesau mawr yn y diwydiant bwyd wedi gwneud elw echrydus ar draul yr egwyddor o fasnachu'n deg.

Ychydig dros fis yn ôl, cymerais ran mewn dadl yn San Steffan ar y *Grocery Supply Code of Practice* (*GSCOP* neu y Cod). Daeth y ddadl yn sgil deiseb a oedd yn galw ar Lywodraeth y DU i ddiwygio'r Cod er lles cynhyrchwyr yn y gadwyn cyflenwi bwyd ac i roi sicrwydd iddynt yn eu gwaith. Fel rhan o'r diwygiad, rydw i'n awyddus i weld mwy o rym yn cael ei roi i Ddyfarnwr y Cod i gymryd y camau angenrheidiol yn erbyn busnesau sy'n trin cyflenwyr yn annheg wrth fasnachu, a'u cosbi pan fo'n addas.

Mae cytundebau ysgrifenedig a llafar yn cael eu newid gan fân-werthwyr ar y funud olaf o ran pris a galw. Yn y ddadl, galwais am gryfhau ac ehangu'r Cod i gefnogi ac amddiffyn ffermwyr fel cynhyrchwyr yn y gadwyn cyflenwi bwyd. Mae'r arferion ofnadwy hyn yn gorfodi ffermwyr i ystyried a chwestiynu eu dyfodol yn y diwydiant. Mae tua 25% o ffermwyr llaeth ar draws y DU yn dweud nad ydynt yn siŵr a fyddant yn dal i odro ymhen blwyddyn o ganlyniad i'r pwysau sydd arnynt ar hyn o bryd. Dyma ffigwr pryderus iawn sy'n galw am newid brys er mwyn cefnogi ein ffermwyr a chynnig sicrwydd iddynt mewn cyfnodau mor heriol.


Mae Masnach Deg yn gysyniad rhyngwladol ac mae'n anodd credu ein bod ni'n parhau i 'ddadlau' egwyddor mor syml yma yn y DU. Heb os, mae'n rhaid i fân-werthwyr roi'r sicrwydd i'w cyflenwyr y byddant yn prynu'r hyn y cytunwyd i'w brynu, yn talu'r hyn y cytunwyd i'w dalu, ac yn talu'n brydlon, a hynny yn ddieithriad.


NICEIC APPROVED CONTRACTOR
**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol
**M** 07703 169813
Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
**E** alun.davies142@btinternet.com

## Cofio un o feibion Tal-y-bont

**Emrys Gwynne James (1906-1965)**
**ffisegydd, dyfeisydd a pheiriannydd**

Ar adegau, mae cymunedau yn cynhyrchu unigolion dawnus mewn meysydd annisgwyl, un felly oedd Emrys Gwynne James. Fe'i ganwyd i John a Sarah James yn 'Cambrian House' (Tanffordd), yn frawd iau i Aeronia a brawd hŷn i William Llewelyn James (tad Dei Twin). Bu Aeronia, fy mam-gu, farw yn ifanc o diptheria yn 1940 a bu William Llewelyn yn byw am y rhan fwyaf o'i oes yn Nhal-y-bont gan ddilyn galwedigaeth ei dad fel adeiladydd. Yr oedd John James yn ddisgynnydd i deulu o wehyddion o Bentre Bach a Sarah yn wniadures o Daigwynion, Llandre.



Dr Emrys Gwynne James yn derbyn ei ddoethuriaeth yn 1934.

Mynychodd Gwynne Ysgol Tal-y-bont ac yna Ysgol Ramadeg Ardwyn cyn derbyn ysgoloriaeth yn 1925 i astudio Ffiseg yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth. Fe darfwyd ar ei astudiaethau cynnar yn Aberystwyth gan iddo ddal y dicáu gan dreulio cyfnod yn Ysbyty Talgarth yn atgyfnerthu. Er hynny, graddiodd ag Anrhydedd Dosbarth Cyntaf yn 1930. Un amod o'i ysgoloriaeth oedd cymhwyso fel athro. Cwblhawyd yr ochr academaidd yn llwyddiannus ond methwyd y prawf iechyd ac o'r herwydd fe drodd at ymchwil Ffiseg yn Aberystwyth. Derbyniodd radd PhD yn 1934. Yr adeg honno, roedd seremonïau PhD yn cael eu cynnal yn eu tro gan un o aelodau Colegau Prifysgol Cymru, ac ym Mangor y bu ei seremoni ef.

Wedi iddo dderbyn ei ddoethuriaeth, dechreuodd Gwynne weithio fel ymchwilydd ar falfiau electroneg gyda'r General Electric Company (GEC). Yn y tridegau 'roedd sefydlu labordy ymchwil yn gam arloesol i gwmni masnachol a thra oedd yno yn Wembley bu'n gohebu yn rheolaidd â'r teulu 'nôl yn Nhal-y-bont. Mewn un llythyr at Aeronia mae'n sôn am y berthynas anodd yn y labordy rhwng gwyddonwyr Iddewig ac ymchwilwyr o'r Almaen. Ychydig a wyddai bryd hynny am yr erchyllterau a oedd i ddod.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd trawsnewidiwyd gweithgaredd Gwynne a GEC wrth fynd ati i greu dyfeisiadau milwrol. Bu'n gyfrifol am dîm a ddyfeisiodd ddyfais ar gyfer systemau radar oedd yn defnyddio adnodd newydd, sef lled-ddargludyddion silicon sydd mor gyfarwydd inni heddiw.

Ar ôl y Rhyfel esblygodd ei waith i faes transistorau gan gydweithio yn gyson â chwmnïau technoleg cyfrifiadurol amlwg yr Unol Daleithiau. Byddai'n hedfan allan yno, taith lawer mwy cyffrous yn y pumdegau o gymharu â'n dyddiau ni, ond yn dychwelyd ar longau moethus megis y Queen Elizabeth a'r Queen Mary! Yr oedd yn cyfrannu at dechnoleg gynnar yr Oes Silicon ac fe'i cydnabyddir yn awdurdod byd-eang ar ddargludyddion silicon. Derbyniodd OBE ym 1957 am y gwaith hwn.

Sefydlwyd partneriaeth rhwng GEC a chwmni Phillips o'r Iseldiroedd ac fe benodwyd Gwynne yn rheolwr labordy ymchwil cyfun y ddau gwmni. Tra'n ymweld â chwmni Phillips yn Nijmegen, cafodd drawiad ar y galon a bu farw'n ddisymwth yn 58 mlwydd oed ym 1965. Gadawodd weddw a thri o blant. Mae'r tri yn cynnal eu cysylltiad agos â'r ardal ac yn ymwelwyr cyson â Thal-y-bont – eu 'cartref ysbrydol'.

I nifer 'roedd yn Wncwl Gwyn, i eraill yn ffrind bore oes ac yn un o feibion Tal-y-bont. Ond rhaid cofio mai ef hefyd oedd yr ymchwilydd disglair a gyfrannodd i ddatblygiad technoleg silicon yn y dyddiau cynnar.

Er mwyn derbyn gwybodaeth drylwyrach am ei fywyd a'i yrfa dylid darllen erthygl gan Rowland Wynne a gyhoeddwyd yn *Y Faner Newydd* (Hydref 2023).

*Penri James, Taigwynion*













# Chwaraeon a Hamdden

## O Bont-goch i Seland Newydd

**Unwaith eto rydym fel ardal yn hynod falch o gael ymfalchïo yn llwyddiant Jane Bailey, Troedrhiwseiri, Bont-goch, sydd wedi cael ei dewis i gynrychioli Cymru ar gyfer y cystadlaethau hoci Meistri merched cenedlaethol a rhyngwladol sydd i'w cynnal eleni. Cynhelir y Gwledydd Cartref yn Nottingham ym mis Mehefin a Chwpan y Byd yn Auckland, Seland Newydd ym mis Tachwedd.**

Hoffai Jane nodi ei bod yn hynod ddiolchgar am y gefnogaeth a gafodd yn y blynyddoedd blaenorol i'w hymdrechion rhyngwladol. Mae'n daer bod ennill medalau efydd yng nghystadleuaeth Cwpan Ewrop y llynedd yn Valencia a HN yn Glasgow (y flwyddyn gyntaf fel carfan dros 65) yn dyst i waith caled ac ymroddiad y tîm.


Jane Bailey

Mae aelodau'r sgwad a'r staff cymorth yn talu amdanynt eu hunain yn llwyr ar gyfer costau teithio, llety, cit ac ati hyd at ffïoedd y gystadleuaeth, tocynnau i'r gwrthwynebwyr a meysydd hyfforddi.

Cynhaliodd Jane swper ar nos Mawrth, 19eg Mawrth, yng nghaffi Cletwr yn Nhre'r-ddôl er mwyn cefnogi'r daith. Cafodd y 37 ymwelydd lwcus a ddaeth i'r swper codi arian arbennig wledd dan ofal Jane, yn cynnwys swper tri chwrs, gwydraid croeso o *fizz* a the neu goffi. Mae Jane yn gyfarwydd iawn â chegin Cletwr gan ei bod yn gweithio yno yn achlysurol ac fel y gŵyr pawb sy'n dyst i'w danteithion, mae'n gogydd o fri! Pob lwc Jane!

*Helen Jones*

## PÊL-DROED

**Mae tîm pêl-droed Tal-y-bont wedi cael tymor boddhaol ar y cyfan. Yn y gemau diweddaraf curwyd Eilyddion Llanilar 3–2, gyda Barry Southgate, yn ei gêm gyntaf dros y clwb y tymor hwn, yn sgorio y drydedd gôl yn y funud olaf. Braidd yn siomedig oedd y canlyniad yn erbyn Padarn United ar 6 Ebrill. Sgoriodd Ioan Joseph o'r smotyn yn y mundau olaf i gipio pwynt.**

Y newyddion da yw bod Tal-y-bont wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan Len a Julia Newman wedi buddugoliaeth haeddiannol yn erbyn y Borth. Mae disgwyl i'r ffeinal gael ei chwarae yn ystod wythnosau cyntaf Mai. Mae 'na siawns hefyd y bydd Tal-y-bont mewn ffeinal cystadleuaeth arall ond rhaid curo tîm cryf Corris ar 1 Mai yn gyntaf.

Cyn y gêm yn erbyn Padarn, cynhaliwyd munud o dawelwch i gofio am y diweddar Hywel Williams, Cynnull-mawr, a fu'n gefnogol iawn i'r clwb dros y blynyddoedd.


Barry Southgate wedi iddo sgorio yn y funud olaf.


Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Adweitheg
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
07375 422 608

Tu allan i ddalgylch Papur Pawb?
Papur Pawb ar gael yma
**Siop Inc**
Aberystwyth
**Swyddfa Bost**
Penrhyn-coch
**Siop Spar**
Bow Street
**Mr News**
Machynlleth
50c yn unig

LLAETH LLEOL ORGANIG
ar gael yn y
Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth
www.llaethjenkinsmilk.co.uk
07813 827 712
@cwtshllaeth
Hefyd ar gael yn siopau lleol.
Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf, Talybont

Tal y Bont floodees
&
TIR CANOL
prosiect CYNNAL
Ymunwch â ni am daith dywys o faes y pentref am 6pm i ddathlu prosiect newydd Cynnal, yn edrych ar y berthynas rhwng tir, dŵr a pherygl llifogydd.
Wedi'i ddilyn gan sesiwn mapio cymunedol yn y Llew Gwyn am 8pm
Dydd Gwener 19 Ebrill 6-8pm